Care & Repair Cymru

# O DRAUL I GYFLWR GWELL: CYNLLUN TREIALU GRANT RHWYD DDIOGELWCH

Adroddiad Care & Repair Cymru



## Am Gofal a Thrwsio

Mae Gofal a Thrwsio yn gwella cartrefi i newid bywydau. Rydym yn fudiad elusennol trwy Gymru sy'n helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol mewn cartrefi cynnes, diogel a chyfleus trwy gyflawni addasiadau a gwelliannau i'r cartrefi.

Nid ydym yn derbyn y dylai unrhyw berson hŷn orfod:

- Byw mewn cartref nad yw'n addas i'w anghenion.
- Mynd yn wael oherwydd ei fod yn byw mewn cartref oer.
- Byw mewn cartref sy'n beryglus neu nad yw'n addas i fyw ynddo.
- Fod heb yr addasiadau angenrheidiol i'w helpu i fyw'n annibynnol gydag urddas yn ei gartref ei hun.

## Ein Galwad am Grant Rhwyd Ddiogelwch

Bod dydd mae Gofal a Thrwsio yn gweld pobl hŷn yn byw mewn cartrefi gwael, sy'n methu fforddio gwneud gwaith trwsio sylfaenol a hanfodol i'w cartrefi. Mewn llawer rhan o Gymru, nid oes arian cyhoeddus o gwbl ar gyfer mynd i'r afael â diffyg trwsio sy'n ddifrifol ac angen sylw brys i bobl hŷn fregus ar incwm isel. Dangosodd yr Arolwg Cyflwr Stoc Tai Cymru diwethaf yn 2018 bod 18% o gartrefi yng Nghymru â pherygl i iechyd yn bresennol.[i] Mae'r ffigyrau swyddogol hyn yn hen ac nid ydynt yn adlewyrchu gwir gyflwr tai yng Nghymru. Trwy brofiad Gofal a Thrwsio bob dydd mewn cartrefi yng Nghymru, credant bod hyn yn llawer uwch i boblogaeth hŷn Cymru.

Oherwydd na allwn ymdrin â diffyg trwsio mae'n golygu hefyd na fyddwn yn gallu gosod addasiadau i gynnal bywyd annibynnol ac atal damweiniau gartref fel codymau; ni all cartref gyda waliau plaster llaith gynnal rhai canllawiau, ac ni all gwaith trydanol o safon isel gyflenwi grym i gadair drydan ar risiau yn ddiogel.






# CYNLLUN TREIALU CRONFA O DDIFFYG TRWSIO I DRWSIO

Yn 2024 cytunodd bwrdd Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych i ryddhau £50,000 o'u gronfeydd wrth gefn i gefnogi cynllun treialu **Cronfa O Draul i Gyflwr Gwell** i hwyluso gwaith trwsio hanfodol i gleientiaid hŷn a bregus oedd yn bodloni meini prawf cymhwyster penodol. Roedd y gronfa ar gael i gleientiaid fel y dewis olaf un pan oedd gweithwyr achos wedi methu cael unrhyw grant arall.

Yn yr adroddiad hwn, rydym yn edrych ar ochr ymarferol gweinyddu cronfa o'r math hwn, ac yn rhoi amcangyfrif cliriach o'r gost gyffredinol. Rydym hefyd yn dadansoddi'r cynllun peilot i ddeall sut y gallai Grant Rhwyd Ddiogelwch gefnogi pobl hŷn i fyw'n ddiogel ac annibynnol gartref os caiff ei weithredu'n genedlaethol.

## Cymhwyster ar gyfer y Gronfa ac Amodau Cyllido

**Cymhwyster a'r Meini Prawf ar gyfer y gwasanaeth**

- Perchen-feddiannydd
- Person hŷn dros 60 oed (neu dros 50 oed os yw'r atgyfeiriad at y Gronfa gan gleientiaid ein prosiectau Ysbyty i Gartref Iachach neu Ymdopi'n Well).

**Amodau Cyllido**

- Categori 1 Perygl yn Bresennol y System Farnu Iechyd a Diogelwch Cartrefi (HHSRS) (peryglon sy'n eithafol ac yn achosi risg ddifrifol ac ar unwaith i iechyd a diogelwch person).
- Cleient yn gorfod bod â llai na £3000 y person o gynilion.
- Gellir defnyddio'r Gronfa fel cyllid ar y cyd ag asiantaethau a grantiau eraill a chyfraniad y cleient fel fydd yn briodol.

- Cyfyngiad cyllido o £3,000 i bob eiddo (cyllid dros £3000 yn amodol ar gymeradwyaeth ar sail achosion unigol yn dilyn asesiad o'r angen).

**Y mathau o waith a ystyrir ar gyfer trwsio neu welliannau yn cynnwys (nid yw'n rhestr hollgynhwysol):**


- Peryglon llithro, baglu a syrthio e.e. slabiau palmant anwastad
- Diogelwch i atal dieithriaid rhag cael mynediad
- Cyfnewid gwydrau drysau/ ffenestri/ cloeon
- Trwsio neu roi dodrefn ystafell ymolchi / cawod newydd
- Diogelwch trydanol
- Goleuadau
- Oerni eithafol
- Diogelwch nwy a gwresogi
- Tamprwydd a thyfiant llwydni
- Atal drafftiau
- Camau effeithlonrwydd ynni
- Trwsio toeau
- Trwsio nenfwd/lloriau






# GWAITH A ARIANNWYD GAN Y CYNLLUN PEILOT

Yn ystod 2024-2025, dyfarnodd cynllun O Draul i Gyflwr Gwell gyllid i 11 o gleientiaid. Yn ystod 2025-26 mae 4 atgyfeiriad llwyddiannus wedi eu gwneud ar gyfer cyllid hyd yn hyn. Roedd rhai cleientiaid angen cyllid ar gyfer mwy nag un categori o waith.





**Cyfanswm yr arian a ddyfarnwyd yn 2024-25 = £22,553**

**Cyfartaledd y swm i bob ymyrraeth = £2,050**

**Creodd pob £1 a wariwyd ar y cynllun peilot £3.65 mewn gwerth cymdeithasol[1]**

# Y gyfran o'r cyllid a wariwyd

Dadansoddiad o'r gwaith a wnaed yn 2024-25 yn ôl y swm a wariwyd (roedd angen cyllid ychwanegol o ffynonellau allanol ar gyfer peth o'r gwaith).




Trwy ddadansoddi'r gwaith a ariannwyd yn 2024-25 gwelir bod **y swm mwyaf o gyfanswm y cyllid wedi ei wario ar atgyweirio nenfydau, waliau, drysau a/ neu ffenestri.**

Mewn 3 o'r 11 achos cafwyd cyllid ychwanegol o rywle arall gan ein gweithwyr achos, ac mae mynd trwy bob dewis arall yn ofynnol cyn gwneud cais am arian o'r gronfa. Mae hyn yn dangos pa mor bwysig oedd swyddogaeth y gronfa yn 'ychwanegu at' ffynonellau cyllid eraill er mwyn galluogi i'r gwaith angenrheidiol fynd yn ei flaen.

# ASTUDIAETH ACHOS

## Problem:

Mae Mrs Dennis yn byw ar ei phen ei hun mewn fflat ar y llawr gwaelod sy'n rhan o dŷ pâr. Mae hi ar incwm isel, gydag ychydig iawn o gynilion. Mae'n gwario dros 10% o'i hincwm ar ynni, sy'n golygu ei bod mewn tlodi tanwydd.

Fe wnaeth ei bwyler combi 15 mlwydd oed stopio gweithio yn un o'r wythnosau oeraf o'r gaeaf oeraf yr ydym wedi ei gael ers sawl blwyddyn. Rhoddodd Gofal a Thrwsio fenthyg gwresogyddion cludadwy iddi, ond nid oedd y rhain yn ateb darbodus tymor hir – byddai naill ai ei hiechyd, ei harian neu ffabrig ei chartref wedi dechrau dioddef yn fuan. Roedd hi eisoes yn cyfyngu ar ei defnydd o wres ac yn dibynnu ar flancedi i wneud iawn am hynny.

Mae ganddi gawod drydan, ond roedd yn rhaid i'w holl ddŵr poeth arall gael ei ferwi mewn tegell a'i gludo o gwmpas y cartref, gan greu mwy o berygl.

## Ymyrraeth:

Daeth Swyddog Ynni Cartref Gofal a Thrwsio o hyd i ddyfynbris ar gyfer cyfnewid y bwyler trwy un o'r contractwyr yr ydym yn ymddiried ynddynt. Ond roedd y gost tu hwnt i gyrraedd Mrs Dennis. Archwiliwyd datrysiadau gan NYTH neu ECO4 ond nid oeddynt yn berthnasol i'r sefyllfa hon.

Llwyddodd ein Swyddog Ynni Cartref i ddod o hyd i gyllid gan Grant Loteri Genedlaethol Gofal a Thrwsio, y Grant Diogelwch Nwy a grant mwy nag arfer gan "Friends of the Elderly". Talwyd gweddill y gost gan y Gronfa.


## Canlyniad:

Roedd y gwaith wedi ei ariannu'n llawn a'i gwblhau ychydig dan 18 diwrnod calendr ar ôl i'r cleient gysylltu gyntaf, ychydig ddyddiau cyn i gyfnod oer arall chwipio i mewn. Mae Mrs Dennis yn dweud ei bod yn teimlo'n llawer cynhesach a hapusach yn ei chartref. Cynhaliwyd ymweliad dilynol pellach gan y Swyddog Ynni Cartref tuag wythnos yn ddiweddarach, i addasu ei thermostat a dangos iddi sut i'w ddefnyddio'n annibynnol.


Heb gyfraniad Gofal a Thrwsio a heb gael cyllid hanfodol o'r Gronfa, ni fyddai Mrs Dennis wedi gallu datrys y sefyllfa o gwbl, byddai wedi cael ei gorfodi i ddibynnu ar wresogyddion cludadwy drud ac annigonol am gyfnod amhenodol.

# EFFAITH CYNLLUN PEILOT O DRAUL I GYFLWR GWELL

## Y prif ganlyniad i'r cleient o gwblhau'r gwaith




## Canlyniad eilaidd i'r cleient o gwblhau'r gwaith



# ASTUDIAETH ACHOS

## Problem:

Mae Mrs Williams yn byw mewn tŷ teras ar ben y rhes o garreg, sydd tua 100 mlwydd oed gyda'r rhan fwyaf o'r ffenestri yn rhai gwydr dwbl. Y drysau pren gwreiddiol sydd ar ei chartref. Drws ar batrwm drws stabl yw'r drws cefn, ac nid yw'r ddwy ran yn ffitio'n dda gyda'i gilydd, gan adael nifer o fylchau. Mae'r coed hefyd wedi chwyddo a hollti ar hyd y blynyddoedd, gyda rhai rhannau wedi pydru ac yn ddrafftiog. Mae ffenest y gegin gerllaw yn ffenestr sash, gwydr sengl. Mae rhywfaint o'r gwydr wedi cracio, felly mae gwres yn dianc trwy'r ffenestr.

Mae'r gegin yn anodd ei chynhesu a dyma'r ystafell oeraf yn y tŷ. Gan ei bod yn agored i'r grisiau, y cyntedd a'r landin mae hyn yn cael effaith ar dymheredd ac effeithlonrwydd ynni gweddill y tŷ.

Mae gan Mrs Williams oestoarthritis yn ei dau ben-glin, y ddwy glun, a'i llaw dde (sy'n arbennig o boenus mewn tywydd oer). Mae ganddi reolydd calon hefyd ac abladiad y galon sy'n cyfyngu ar guriad ei chalon bob munud ac yn ei dro faint o weithgaredd corfforol all hi ei wneud. Mae hi ar incwm isel, gydag ychydig iawn o gynilion a dyled ar gerdyn credyd.

## Ymyrraeth:

Daeth Swyddog Ynni Cartref Gofal a Thrwsio o hyd i ddyfynbris ar gyfer cyfnewid drws a ffenestr y gegin trwy un o'r contractwyr dibynadwy. Ond roedd y gost tu hwnt i gyrraedd Mrs Williams. Nid oedd datrysiadau gan NYTH neu ECO4 yn berthnasol i'r sefyllfa hon.

Roedd Mrs Williams wedi gweithio fel athrawes ac roedd yn aelod o Undeb Cenedlaethol yr Athrawon ond nid oedd ganddi'r gwaith papur ac roedd wedi bod yn aflwyddiannus wrth geisio cael ei chofnodion aelodaeth ar-lein, ac felly ni allai ymgeisio am gronfeydd yn gysylltiedig â galwedigaeth i gyfrannu tuag at gostau'r gwaith. Llwyddodd Gofal a Thrwsio i gael cyllid o Grant Loteri Genedlaethol Gofal a Thrwsio, gyda gweddill y costau'n cael eu talu gan y Gronfa. Helpodd Gofal a Thrwsio Mrs Williams hefyd i hawlio Gostyngiad i'r Dreth Gyngor, gan arbed £630 iddi yn flynyddol.

## Canlyniad:

Cwblhawyd y gwaith i drwsio'r gegin a'r drws 10 diwrnod cyn y Nadolig. Mae Mrs Williams yn dweud ei bod yn llawer cynhesach a'i bod yn falch nad yw'n rhaid iddi gyfyngu ei hun i un ystafell yn y tŷ bellach. Dywedodd Mrs Williams: "*Roedd y ddau grwt ifanc yn gwrtais iawn a phroffesiynol iawn, roedd yn bleser eu cael yn y tŷ. Fe wnaethon nhw waith gwych.*"

## Cyflwr tai gwael: cost gwneud dim

Byddai gweithredu Grant Rhwyd Ddiogelwch ar gyfer diffyg trwsio peryglus yn cynnig ateb tymor hir syml i broblemau cymhleth sy'n gyd-gysylltiedig, gan gynnwys:

Arbed arian i GIG Cymru:

- Mae tai o ansawdd gwael yn costio mwy na £95 miliwn mewn costau trin i'r GIG yng Nghymru'r flwyddyn. Dim ond 10% o gostau cymdeithasol economaidd llawn gadael pobl mewn cartrefi afiach (a amcangyfrifir i fod yn £1 biliwn y flwyddyn) yw'r costau trin blynyddol.[ii]

- Gallai gwella'r cartrefi gwaelaf arwain at 39% yn llai o dderbyniadau i'r ysbyty ar gyfer problemau cylchrediad y gwaed a'r ysgyfaint[iii]. Byddai gwella amodau tai yn arwain at 40-50% yn llai o salwch resbiradol mewn cartrefi nad ydyn nhw'n damp.

Lleihau'r pwysau ar wasanaethau ambiwlans - codymau oedd yn gyfrifol am y nifer fwyaf o alwadau i'r gwasanaeth yn 2023, ac roedd 77% o'r galwadau yn ymwneud â chodymau gan bobl 65+ gan arwain at dderbyn 42,000 o gleifion i ysbytai.[iv]

Ymdrin â phroblemau tai yn gyflym ac effeithlon cyn iddyn nhw fynd yn waeth ac yn ddrytach i'w datrys.

Gwasanaeth teg trwy Gymru.

# ATEBION TYMOR HIR I GREU NEWID TYMOR HIR

Yn 2024-25, darparodd Gofal a Thrwsio 64,889 o wasanaethau i helpu pobl hŷn i aros yn annibynnol gartref. Er gwaethaf hyn, bob dydd rydym yn gweld pobl hŷn yn byw mewn tai difrifol o wael sy'n methu fforddio gwneud gwaith i wella eu cartrefi.

Dengys ein dadansoddiad o gynllun peilot O Draul i Gyflwr Gwell yn glir **y galw brys am Grant Rhwyd Ddiogelwch.**

Mae'r Gronfa wedi cael ei defnyddio fel cronfa'r dewis olaf un, ac roedd angen i'n gweithwyr achos ddangos unrhyw ffynonellau ariannol eraill yr oeddynt wedi mynd ar eu hôl neu geisiadau y maent wedi eu gwneud i ffynonellau eraill fel rhan o'u cais am gyllid gan y gronfa.

O ganlyniad, gallwn dybio'n sicr, heb dderbyn cyllid o'r cynllun peilot, **na fyddai cyllid ar gael, gan adael pobl hŷn yn byw mewn cartrefi o safon isel, oer a fyddai'n cael effaith niweidiol iawn ar eu hiechyd, eu llesiant a'u gallu i fyw'n ddiogel ac annibynnol gartref.**

## Credwn y dylai'r cynllun hwn gael ei gyflwyno trwy Gymru i sicrhau bod y bobl hŷn i gyd yn gallu byw mewn cartrefi diogel, cynnes a hygyrch.

Er mwyn dysgu rhagor am ein gwaith polisi yng Nghymru neu sut y gallwch ein cefnogi, ewch draw i'n gwefan neu cysylltwch â Katherine Evans, Swyddog Polisi – Katherine.evans@careandrepair.org.uk

---

[i] Welsh Housing Conditions Survey 2017-18: Headline Report (Updated). Available at: Welsh Housing Conditions Survey 2017-18: headline report (updated)
[ii] Poor housing costs health service £95m per year – new report - Public Health Wales (nhs.wales)
[iii] Poor housing costs health service £95m per year – new report - Public Health Wales (nhs.wales)
[iv] Wales Ambulance Service, Falls Training Presentation, 2024

Care & Repair Cymru

www.careandrepair.org.uk

Care & Repair Cymru is a registered charity **(No. 1163542)**
and a company limited by guarantee **(No. 09574555)**.